# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ebrill 2024

Amser: 14. - 15.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13871

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Buffy Williams AS<br>Natasha Asghar AS (yn lle Joel James AS) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriad gan Joel James AS.

Roedd Natasha Asghar AS yn bresennol yn y cyfarfod fel dirprwy ar gyfer Joel James AS.

Roedd Rhys ab Owen AS yn absennol.

### 1.1 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

Gwnaeth Peredur Owen Griffiths AS gywiriad ffeithiol i sylwadau a wnaed yn ystod trafodaeth ddiwethaf y Pwyllgor ar y ddeiseb ar 18 Mawrth.

### 1.2 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

Gwnaeth Peredur Owen Griffiths AS gywiriad ffeithiol i sylwadau a wnaed yn ystod trafodaeth ddiwethaf y Pwyllgor ar y ddeiseb ar 18 Mawrth.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1397 Cyflwyno opsiwn prawf ceg y groth yn y cartref yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod y mater eisoes yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn eu cyngor a'u hargymhellion, a fydd yn dilyn yr adolygiad o dreialon hunan-samplu.

At hynny, mae wedi bod yn ystyriaeth yn ddiweddar yn Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ganserau gynaecolegol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru eu hargymhellion, a oedd yn cynnwys ystyried hunan-samplu ar gyfer canserau ceg y groth.

Yng ngoleuni'r gwaith a wnaed eisoes ar y mater, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebwyr am dynnu sylw at bwysigrwydd dod o hyd i ffyrdd o leihau'r rhwystrau i sgrinio serfigol.

**2.2 P-06-1398 Cynyddu effeithiolrwydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llygredd yn y Teifi.**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, yn rhannu sylwadau a chynigion Grŵp Cymunedol Achub y Teifi ac yn aros am ymateb pellach; a hefyd
- Cyfoeth Naturiol Cymru, i holi pa effaith a gaiff setliad y gyllideb ar y gwaith arfaethedig i wella ansawdd dŵr a chyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â monitro iechyd yr afon, a gorfodi gofynion cyfreithiol.

**2.3 P-06-1399 Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AAGIC) wneud Anhwylder Dysfforig Cyn Mislif (PMDD) yn fodiwl datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol mewn addysg feddygol ôl-radd.**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a llongyfarchodd y deisebydd ar ei chyflawniad yn codi ymwybyddiaeth o PMDD a chydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu modiwl e-ddysgu datblygiad proffesiynol parhaus, ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb ond wrth wneud hynny, parhau i gefnogi ymgyrch y deisebydd i sicrhau bod merched a menywod yn cael mwy o wybodaeth drwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd i rannu'r argymhellion ar gyfer gwelliannau a amlinellwyd yn ei gohebiaeth.

## 2.4 P-06-1400 Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn pa waith – os o gwbl – y maent yn bwriadu ei gynnal ynghylch Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, ac a allai'r ddeiseb hon a'r pryderon a godwyd gan BMA Cymru fod yn rhan o ymchwiliad yn y dyfodol.

Unwaith y ceir ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd yr Aelodau'n ystyried y ddeiseb ymhellach a'r camau mwyaf priodol i'w cymryd.

## 2.5 P-06-1405 Mae eisiau ac mae angen uned Iechyd Meddwl â gwelyau i ddynion arnom ni yng Ngogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i wneud y canlynol:

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar i ofyn am y ddarpariaeth o gymorth iechyd meddwl acíwt 24/7;
- aros am ganlyniad yr ymgynghoriad ar y strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed, a strategaeth newydd iechyd meddwl a llesiant; a hefyd
- ceisio eglurhad gan bob Bwrdd Iechyd Lleol ar nifer y lleoedd sydd ar gael i gleifion mewnol.

## 2.6 P-06-1407 Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am ddadl ar y ddeiseb cyn gynted â phosibl.

### 2.7 P-06-1412 Rydym am i Lywodraeth Cymru gadw’r gyfraith 20mya ardderchog

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunwyd i'w chadw ar agor tra'n aros am ganlyniad y ddadl ar P-06-1407: Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu’r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya.

### 2.8 P-06-1418 Dylid cyflwyno deddfwriaeth newydd i ddiogelu meysydd chwaraeon rhag baw cŵn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ymweld â Chlwb Rygbi Abercarn i weld maint y broblem, gyda golwg ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ymhellach am y mater.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd gynnig y Gweinidog i gwrdd â'r deisebydd i drafod unrhyw gamddealltwriaeth posibl o ran cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal di-dâl. Yng ngoleuni cynnig y Gweinidog, a bod gohebiaeth helaeth ar y mater hwn, cytunodd yr Aelodau i gau’r ddeiseb a diolch i’r deisebydd.

### 3.2 P-06-1217 Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod y deisebydd bellach wedi cyfarfod â swyddogion y Gweinidog a bod y ddeiseb wedi bod ar agor ers tair blynedd. Er bod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddioddef o Covid Hir, nid yw'n glir beth arall y gallai'r Pwyllgor ei wneud i fynd â'r ddeiseb ymhellach. Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am godi'r mater pwysig hwn.

### 3.3 P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru.

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Datganodd Peredur Owen Griffiths AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mynychodd gynhadledd yn Valencia ar y pwnc.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd gasgliadau'r adroddiad manwl a manwl a luniwyd gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu.

Nododd yr aelodau fod y ddeiseb wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau gwell dealltwriaeth, a chytundeb 'mewn egwyddor' y gallai cynllun peilot fod yn werth chweil. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a llongyfarch y deisebydd.

### 3.4 P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunwyd, ar ôl ysgrifennu at yr Awdurdod Lleol eto ar y mater hwn, nad yw'n glir beth arall y gallai'r Pwyllgor ei wneud i fynd â'r ddeiseb ymhellach. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 3.5 P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb, a nododd fod y sefyllfa wedi datblygu ers i'r ddeiseb gael ei chyflwyno, a'i bod yn parhau i ddatblygu. Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer y sector, a disgwylir y Bil Bws yn ddiweddarach eleni.

Yng ngoleuni'r gwaith parhaus ar fysiau, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 3.6 P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl â Syndrom Ehlers-Danlos (EDS) neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd mai dyma'r bumed tro i'r ddeiseb hon gael ei hystyried. Gan fod y deisebwyr mewn cysylltiad â swyddogion y GIG – ac yn bwriadu cyfarfod â nhw – cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a dymuno'n dda i'r deisebwyr yn eu hymgyrch.

### 3.7 P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd ymateb y Gweinidog. Cytunodd yr Aelodau i gadw'r ddeiseb yn agored nes bod apêl y Pwyllgor Argyfyngau Brys (neu'r *DEC*) yn ei lle.

### 3.8 P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunwyd i'w chadw ar agor hyd nes y cyhoeddir crynodeb o dystiolaeth Llywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft yn amodol ar fân-newidiadau.